

Cyngor Cymuned Llanuwchllyn

Cadeirydd: Nia Heledd Jones

Cofnodion Cyngor Cymuned Llanuwchllyn

5/12/2017

Presennol: Heledd Jones (Cadeirydd), Alwyn E Jones (Is-gadeirydd), Huw Antur, Beryl Hughes Griffiths, Arwel Lloyd Jones, Dewi Jones, Karl Jones, Rhodri Jones, Alwyn Roberts, Huw P Roberts

Alan Jones Evans, (Cynghorydd Gwynedd), Bethan Edwards (Swyddog Ariannol), Lis Puw (Clerc)

Ymddiheuriadau: Ian Trow

1790 Croesawyd pawb ac estynwyd cydymdeimlad yr aelodau i Ian Trow a'r teulu yn eu profedigaeth diweddar. Roedd pawb yn falch o weld y Cynghorydd Alan Jones Evans wedi gwella o'i anhwylder diweddar.

1791 Buddiant: Nid oedd datganiadau o fuddiant.

1792 Cofnodion: Cadarnhawyd cywirdeb Cofnodion cyfarfod 7/11/17.

1793 Materion y Clerc : Derbyniwyd gwybodaeth fod Cyngor Gwynedd wedi gosod y gwaith ar lwybr Cae Ceunant a disgwylir y bydd hyn wedi ei orffen erbyn Chwefror 2018. Fe fydd yn bosib cydweithio gyda Parc Cenedlaethol Eryri a gwirfoddolwyr i gyfoni tu nol i loches bws Tŷ'n Ddôl ar ôl Awst 2018 pan fydd y rhaglen difa chwyn llysiâu'r dial wedi ei gwblhau. Barn y mwyafrif o Gynghorwyr oedd cytuno gyda'r cais i gau'r ffordd am ddau gyfnod yng Ngorffennaf er mwyn galluogi'r Wyl Chwaraeon i ddigwydd.

1794 Cyngor Gwynedd: Derbyniwyd Adroddiad y Cynghorydd Sir, Alan Jones Evans. Soniodd am y toriadau a orfodwyd ar Gyngor Gwynedd, yn groes i ddymuniad y Cynghorwyr a'r Swyddogion, oherwydd lleihad yn y grant i lywodraeth leol. Soniodd yn benodol am y toriad i gyfraniad tuag at fudiad gwerthfawr y Clybiau Ffermwyr Ifanc, a sut y mae Cyngor Gwynedd yn ceisio eu helpu i wynebu hyn. Trafodwyd nifer o opsiynau ymarferol, gan ddisgwyl y bydd y Mudiad hefyd yn ceisio datrys i'r problemau.

1795 Pwyllgor Ardal Un Llais Cymru: Derbyniwyd adroddiad cynhwysfawr gan Huw P Roberts a soniodd am gyflwyniad Emma Quaeck ar godi ymwybyddiaeth o'r cyflwr dementia a dulliau i helpu dioddefwyr fyw eu bywydau yn y gymuned. Adroddwyd fod gan Arloesi Gwynedd 3 car trydan ar gael i'w defnyddio yn y cymunedau.

1796 Is bwyllgor Cyllid:

- i. Derbyniwyd adroddiad y Cadeirydd, Alwyn E Jones. Soniodd am neilltuo arian ar gyfer prosiectau penodol megis rhaglen pum mlynedd cynnal Asedau'r Cyngor Cymuned; cynnal llwybrau lleol; uwchraddio'r toiledau cyhoeddus; gwella ardal lloches bws Tŷ'n Ddôl; gosod byrddau gwybodaeth am lefydd a phobol hanesyddol a diwylliannol; prosiect tymor hir uwchraddio'r fynwent a symud i fynwent lawnt.

Cyngor Cymuned Llanuwchllyn

Cadeirydd: Nia Heledd Jones

- ii. Cymeradwywyd y gyllideb ar gyfer 2018-19 .
 - iii. Cytunwyd gydag argymhellion yr is-Bwyllgor ar lefel y Praesept 2018-19, sef £10,000, yr un fath a llynedd.
- 1797 Materion ariannol:** Derbyniwyd adroddiad y Swyddog Ariannol Cyfrifol ar yr ymateb i hysbyseb am dendro gwaith cynnal a chadw (3 mlynedd) a chytunwyd ar y contractwr.
- 1798 Is bwyllgor y Fynwent:**
- Derbyniwyd adroddiad yr is bwyllgor gan y Cadeirydd a oedd yn cynnwys: cynlluniau ar gyfer symud tuag at fynwent lawnt (a fydd yn golygu symud cyrbau, addurniadau a phlanhigion); taflen Tymor y Nadolig (ar yr hysbysfwrdd yn y Fynwent); pecyn gwybodaeth i Ymgymerwyr ei roi i deuluoedd; creu ardal benodol ar gyfer claddu llwch; cytundeb cynnal a chadw am y tair blynedd nesaf. Cytunwyd hefyd i ddileu'r ffi am gladdu plentyn oed ysgol neu iau. Disgwylir gwybodaeth gan Parc Cenedlaethol Eryri am y ffi ar gyfer caniatáu mynychwyr safle archeolegol Caer Gai i barcio ym maes parcio'r fynwent.
- Cytunwyd i holi am gyfraniad fel arwydd o ewyllys da tuag at y gwariant sylweddol a fwriedir ei wneud yn y fynwent gan gwmni Gwilym James sydd wedi bod yn gwneud defnydd o'r maes parcio wrth iddynt greu'r bont bren newydd.
- 1799 Materion Eiddo'r Cyngor:** Adroddodd Karl Jones fod eiddo'r Cyngor mewn cyflwr da. Dywedodd fod drws y toiledau wedi ei drwsio. Adroddodd fod trefniadau mewn llaw i osod coeden Nadolig wrth y Gilfach Goffa.
- 1800 Y Noson Goffi:** Adroddodd Arwel Lloyd Jones y byddai'r Noson Goffi Flynyddol ar 13/2/18 gyda chymorth Sefydliad y Merched a Merched y Wawr. "Y Gwir a'r Gwirion" fydd testun y noson, yng nghwmni Al Ty Coch, Eilir Rowlands a Glyn Williams, a diolchwyd i Alan Jones Evans am ei barodrzydd gyda'r trefniadau. Pris Mynediad yn £5 i oedolyn a £1.00 i blant, a'r elw yn mynd tuag at Ambiwlans Awyr Gogledd Cymru , ac ymchwil Cancr. Cytunwyd i roi hysbyseb yn Y Cyfnod.
- 1801 Materion lleol:** mae Cyngor Gwynedd wedi gwneud y gwaith angenrheidiol ar ffosydd Cwm Cynllwyd a diolchwyd iddynt am eu hymateb buan.
- 1802 Partneriaeth Penllyn:** adroddodd y Cynrychiolwyr, Huw Antur ac Alwyn E Jones, fod gwaith ar y cais am grant Loteri i uwchraddio'r Henblas yn mynd yn ei flaen.
- 1803 Gohebiaeth: Parc Cenedlaethol Eryri:** NP5/71/LB272G a NP5/71/LB272H
Cytunwyd nad oedd gan y Cyngor sylwadau i'w gwneud ar geisiadau perthnasol i Tŷ'n Ffridd, Llanuwchllyn.

Cadarnhawyd dyddiad a lleoliad y cyfarfod nesaf: 2/1/18 yn y Neuadd Bentref am 8.00pm